# Gwirfoddolwyr Darganfod

yn Amgueddfa Lechi Cymru.

**Pwrpas y rôl:** i helpu'r Amgueddfa i groesawu ymwelwyr. Lleolir Amgueddfa Llechi Cymru yng ngweithdai Fictoraidd hen chwarel Dinorwig, yng nghysgod Mynydd Elidir. Yma, gallwch deithio nôl i weld gorffennol diwydiant a ffordd o fyw sydd bellach yn rhan annatod o hunaniaeth Cymru. Rydyn ni yn edrych am wirfoddolwyr i helpu croesawu ymwelwyr i'r Amgueddfa unigryw yma.

**Lleoliad:** Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis **Adran:** Gwasanaeth Ymwelwyr

**Oedran**: 16+

**Byddai'r rôl yn addas i bobl sydd:**

- â diddordeb mewn gwasanaethau ymwelwyr neu'r Amgueddfa
- yn awyddus i gymryd rhan
- â diddordeb mewn helpu eraill i ddysgu a darganfod
- yn gallu siarad Cymraeg a Saesneg.

**Oes gennych chi ddiddordeb? Ebostiwch gwirfoddoli@amgueddfacymru.ac.uk neu ffoniwch 02920 57 3002 i gofestru eich diddordeb!**

**Ystyriaethau**: Mae angen i wirfoddolwyr allu siarad Cymraeg ar gyfer y rôl yma. Mae'r rôl yma ar gael yn ystod gwyliau ysgol yn unig (ac eithrio gwyliau'r Nadolig).

**Oriau ac Ymrwymiadau:** Yn ddelfrydol, rydyn ni'n chwilio am wirfoddolwr fydd ar gael rhwng 11.30 a 2.30 am 3 awr. Mae'r rôl yma ar gael yn ystod gwyliau ysgol yn unig.





**Beth ydyn ni'n gynnig i'n gwirfoddolwyr:**

- Costau teithio
- Gostyngiadau yn ein siopau a chaffis
- Gallwn gynnig geirda ar gais
- Rydym hefyd yn cael digwyddiadau dathlu, teithiau tu ôl y llen a chyfleoedd i gwrdd â phobl newydd.



